

GWAITH CYNAEAFU YNG NGHOEDWIGOEDD HALFWAY A CHRYCHAN - CWESTIYNAU AC ATEBION

PAM RYDYM YN TORRI'R COED I LAWYR?

Mae'r coed yn cael eu teneuo. Bydd hyn yn rhoi mwy o le iddynt dyfu, a mynd yn fwy. Bydd hefyd yn galluogi mwy o olau i gyrraedd y ddaear, sef rhywbeth a fydd yn annog planhigion y ddaear ac isdyfiant prenaidd i dyfu. Mae teneuo'n ffordd arferol o reoli coedwig.

Rydym hefyd yn cael gwared â choed llarwydd oherwydd mesurau rheoli clefydau. Ffwng sy'n lladd coed ac amrywiaeth o rywogaethau eraill gan gynnwys planhigion gardd a llus yw *Phytophthora ramorum*. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth drwy ymweld â <http://www.forestry.gov.uk/forestry/inf-d-5ubesn> & <http://www.forestry.gov.uk/pramorum>.

PAM MAE RHANNAU O'R GOEDWIG YN CAEL EI CHAU I'R CYHOEDD?

Ni fydd yn ddiogel i'r cyhoedd fod yn y goedwig tra bydd y gwaith yn cael ei wneud. Mae gwaith cynaeafu'n waith peryglus. Gallwch gael mwy o wybodaeth trwy wyllo'r fideo Youtube ["Introduction to forest safety"](https://www.youtube.com/watch?v=kqnS1BckPgk) <https://www.youtube.com/watch?v=kqnS1BckPgk> Cyd-destun Albanaidd sydd i'r fideo, ond mae'n esbonio peryglon nad ydynt bob amser yn amlwg i'r cyhoedd.

PAM NA ALL Y CYHOEDD DDOD I'R GOEDWIG YN YSTOD PENWYTHNOSAU NEU PAN FYDD Y CONTRACTWYR WEDI MYND ADREF?

Efallai y bydd y contractwyr yn gweithio ar benwythnosau. Hyd yn oed pan fyddant wedi mynd adref, gall y safle barhau i fod yn beryglus, gyda choed a pheiriannau'n cau llwybrau ac ati.

I BLE ARALL Y GALLA' I FYND TRA BYDD Y GOEDWIG WEDI'I CHAU?

Os ydych yn beicio mynydd, y coetir agosaf yw Brechfa; ar gyfer cerddwyr, rhwch gynnig ar Gwm Rhaeadr neu Gilgwyn. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru manau i fynd [Cyfoeth Naturiol Cymru / A-Z o fannau i fynd](#)

A FYDD LLWYBRAU'R GOEDWIG YN CAEL EU DIFRODI?

Byddant, ond rydym wedi cynllunio'r gwaith mewn modd a fydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar y llwybrau. Byddwn yn eu hadfer ar ôl i'r gwaith cynaeafu ddod i ben.

AM BA HYD Y BYDD RHANNAU O'R GOEDWIG WEDI'I CHAU?

Bydd y gwaith yn cael ei wneud oddeutu'r 12 mis nesaf, gan fod rhaid i ni drefnu hyn o amgylch materion amgylcheddol megis Atodlen 1 adar yn nythu.

I BLE Y BYDD Y PREN YN MYND?

I nifer o wahanol lefydd: bydd boncyffion mawr yn mynd i felinau llifio, bydd deunyddiau llai'n mynd i'r marchnadoedd ffensio, a bydd deunyddiau o ansawdd is yn cael eu defnyddio i wneud biodanwydd ar gyfer cynhyrchu trydan neu'n cael eu defnyddio i wneud byrddau sglodion.

EISIAU MWY O WYBODAETH?

Cysylltwch â:

Brian Hanwell – Rheolwr Ardal Leol 0300 065 3944

Gareth Blythin – Rheolwr y Coetir 07990 567271



